# CRYNODEB CYFARFOD
# Cyngor Cymuned Llandderfel

Nos Fawrth, Chwefror 7fed 2023 am 7.30 o'r gloch yn Neuadd Bro Derfel.

Presennol: Maldwyn Jones (cadeirydd), Alwyn Jones, Gwenda Evans, Eilir Rowlands, Gwenda Morris, Meilir Jones, Rita Jones, Cyng. Elwyn Edwards a'r clerc.
Ymddiheuriadau: Gwynedd Jones, Iolo V. Evans, Eifion Davies a Bethan Thomas.

i) Darllen a chadarnhau'r Cofnodion (Rhagfyr 6ed 2022) a chyfarfod cyhoeddus i drafod Cynllun Fferm Wynt Gaerwen (Rhagfyr 2il 2022). **Cymeradwywyd. Gan fod cyfarfod Fferm Wynt Gaerwen yn gyfarfod cyhoeddus gofynnwyd i'r clerc i'w cyfieithu i'r Saesneg hefyd**

ii) Datgan Buddiant – **Datganodd Meilir Jones ei fuddiant yn yr adran ceisiadau cynllunio.**

iii) Materion yn codi o'r Cofnodion.
a) Ymateb i'r cwynion o'r cyfarfod diwethaf.
b) Gwelliannau i'r mynwentydd. **Yn anffodus roedd Cronfa Melinau Gwynt Clocaenog wedi cau tan yr haf. Cytunwyd i gwrdd ar ddydd Sadwrn Chwefror 18fed i ymweld â'r mynwentydd i weld pa welliannau y byddai'n bosib i'w gynnwys yn ein cais i'r gronfa.**

iv) Gohebiaeth
a) Cwmni Pum Plwy Penllyn/ Partneriaeth Penllyn.
i) Rhestr o gyfarfodydd 2023
ii) Calendr gweithgareddau Chwefror Canolfan Henblas.

b) Cyngor Gwynedd.
i) Cynllun Llesiant Gwynedd a Môn - cyfle i ddweud eich dweud.
ii) Newid arfaethedig i derfynau cyflymder.

c) Amrywiol.
i) Llywodraeth Cymru - Grant ymgysylltu â democratiaeth
ii) Gorsaf Heddlu Bala - cynnig ymweld â chyfarfodydd y Cyngor a chyllid ar gael o Gronfa PACT.
iii) Parc Cenedlaethol Eryri - Cynllun grantiau datgarboneiddio cynaliadwy ardaloedd cadwraeth.
iv) Parc Cenedlaethol Eryri - Sefyllfa Parcio Meysydd Parcio Llyn Tegid a Llangywer.

v) Ceisiadau Cynllunio
a) NP5/63/LU282 - Safle Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Bala.
b) C23/0006/04/LL – Adeiladu storfa slyri. Bryn Derw, Glanrafon. **Meilir Jones yn datgan ei fuddiant a gadawodd yr ystafell yn ystod y drafodaeth.**
c) C23/0010/04/TC - Defnydd cyn beudy amaethyddol ar gyfer storio domestig. Tŷ Tan y Graig, Llandderfel.
ch) C23/0040/04/LL: Ail gyflwyniad - Lleoli 5 o bodiau glampio, adeiladu bloc cyfleusterau, gosod system trin carthion a draeniau, creu mynedfa gerbydol a lle parcio a thirweddu. Refail Isaf, Llanfor.
**Nid oedd y cynghorwyr yn ymwybodol o unrhyw wrthwynebiad lleol.**

vi) Materion Ariannol
a) Penodi Archwiliwr Mewnol.
**Cytunwyd i benodi uned archwilio fewnol Cyngor Gwynedd.**

b) Adroddiad Ariannol (Hydref-Rhagfyr).
**Cymeradwywyd**

c) Taliadau.
i) Tanysgrifiad Zoom (1/2 y gost gyda Chyngor Llanycil)

ii) Gliniadur newydd a manion - £259.50 & £59.99 (1/2 y gost gyda Chyngor Llanycil)
iii) H G Web Designs – gwefan £250
**Cymeradwywyd**

<u>ch) Ceisiadau Ariannol.</u>
i) Sioe CFFI Cwm, Ambiwlans Awyr Cymru, Yes Cymru, Eisteddfod yr Urdd Cylch Penllyn, CFFI Meirionnydd, Eisteddfod Talaith a Chadair Powys, Edeyrnion a Phenllyn 2023. **Cytunwyd i gyfrannu'r £100 a oedd wedi ei glustnodi o gyllideb 2021-22 ar gyfer Sioe CFFI Cwm a thrafod gweddill o'r ceisiadau yn ein cyfarfod ym mis Mawrth**

## <u>vii) Materion lleol.</u>
a) **Cytunwyd i anfon y cwynion i'r adrannau perthnasol.**

## CYTUNWYD I GYNNAL Y CYFARFOD NESAF AR NOS LUN MAWRTH 6FED YN NEUADD BRO DERFEL.